

Cynllun Cyflogaeth

Meirionnydd

CYLCHLYTHYR **GAEAF 2015**



Y TU MEWN

DYFODOL DISGLEIRIACH I GWMNI BWYD | BLAENAU'N TRYDANU | LLANBEDR AR I FYNY | ENTREPRENEURIAID YN ARWAIN Y FFORDD



Rhagair

gan Mandy Williams-Davies,
Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd ar gyfer yr economi



Mae'n bleser gen i gyflwyno'r trydydd rhifyn o newyddlen Cynllun Cyflogaeth Meirionnydd i'ch diweddaru am ddatblygiadau yn ardal Meirionnydd. Fel Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd dros yr Economi, rwyf wedi ymweld â nifer o fusnesau yn yr ardal dros y cyfnod diwethaf. Rwyf yn falch iawn o adrodd fod rhaglen eang o fuddsoddiadau'n weithredol gan y sector breifat, mentrau cymdeithasol a'r sector gyhoeddus sy'n mynd i'r afael â'r heriau economaidd sydd yn wynebu ardal Meirionnydd.

Pleser oedd ymweld â chwmi Brighter Foods yn Nhywyn a chyfarfod y Prif Weithredwr, Robin Williams i weld faint o gynnydd sydd wedi bod yn natblygiad y cwmni ers ei sefydlu yn 2014. Drwy arloesi, mae'r cwmni wedi tyfu'n gyflym, ac ar hyn o bryd yn cyflogi dros 100 o weithwyr. Eu gobaith yn awr yw sefydlogi a gwreiddio'r cwmni yn yr ardal.

Mae'r gwaith o ddatblygu Safle Llanbedr fel canolfan rhagoriaeth ar gyfer profi a datblygu systemau heb beilot (RPAS) yn parhau, gyda gwelliannau ffisegol ac isadeiledd sylweddol eisoes i'w gweld ar y safle. Yn yr hydref eleni bydd "Project Meredith" yn cael ei gynnal, a fydd yn arddangos RPAS sifil yn Llanbedr gan ganolbwyntio ar fonitro amgylcheddol, rheoli pysgodfeydd a monitro erydiad arfordirol. Hwn yw'r prosiect cyntaf o'i fath yn y DU, gan sicrhau fod Cymru ar flaen y gad yn yr ymgyrch i ddatblygu ceisiadau sifil ar gyfer systemau ymreolaethol.

Mae'r datblygiad yn cynnig cyfle i wireddu'r angen sydd eisoes wedi'i adnabod ers rhai blynyddoedd i wella mynediad at y safle. Dros y misoedd diwethaf cynhaliwyd ymgynghoriad gan ddadansoddi nifer o wahanol opsiynau ar gyfer datblygu ffordd newydd a bellach mae llwybr detholedig wedi'i adnabod.

Mae'r safle hefyd wedi cyrraedd y rhestr fer fel lleoliad arfaethedig ar gyfer Porth Gofod cyntaf y DU, sy'n ddatblygiad hynod gyffrous i Gymru. Mae'r safle â'r holl nodweddion i fedru cyflwyno achos cryf iawn ac rwyf yn edrych ymlaen at ddysgu mwy am y cyfleoedd a all ddod yn ei sgil. Nid yw'r broses ymgeisio wedi cychwyn eto, rydym yn rhagweld y bydd y gofynion manwl yn cael eu rhyddhau cyn diwedd y flwyddyn.

Mae newidiadau hefyd wedi bod ar Safle Trawsfynydd. Penodwyd corff rhiant newydd i reoli cwmni Magnox yn 2014, sef Cavendish Fluor Partnership (CFP). Ers hyn, maent wedi bod yn adolygu'r lefelau staffio sydd eu hangen i wireddu'r gwaith sydd i'w gwblhau cyn i'r safle gyrraedd pwynt "Gofalu a Chynnal a Chadw", y cam nesaf yn y broses ddadgomisiynu. Mae'r CFP o'r farn bod modd cwblhau'r gwaith yma â chyfran lai o weithwyr na'r rhagwelwyd yn wreiddiol.

Yn ogystal, mae elfennau o'r gwaith oedd yn cael ei wneud trwy gytundeb â chwmnïau allanol wedi cael eu cwblhau. O ganlyniad, rydym wedi gweld nifer sylweddol o weithwyr yn colli eu swyddi ar y safle'n ddiweddar, a rhai o'r rhain yn gynt na'r disgwyl. Byddwn yn parhau gydag ymdrechion i ddenu diwydiant newydd i'r safle a gwaith yn y rhanbarth i'r gweithwyr.

Unwaith eto eleni cynhaliwyd Wythnos Busnes Gwynedd yn ystod mis Mai. Mae'r Wythnos Fusnes yn hyrwyddo ac yn dathlu llwyddiannau busnesau lleol yn ogystal â chynnig cyfle gwych i gwmnïau'r ardal gyfarfod, rhwydweithio a rhannu syniadau. Calonogol iawn oedd y ffaith fod cymaint o fusnesau o Feirionnydd wedi'u cynrychioli yn y digwyddiadau a gynhaliwyd a llongyfarchiadau unwaith eto i Chris Allwood o Gwmni Welsh Slate, Louis Hiatt o gwmni Scrubadub Cleaning, Aberdyfi, Gareth a Sioned Llewelyn Williams o Parciau Gwyliau Y Bala a Sean Taylor o ZipWorld Blaenau Ffestiniog.

Ym mis Gorffennaf fe agorwyd Pont Briwet yn swyddogol gan ddisgyblion o Ysgol Cefn Coch, Penrhyndeudraeth ac Ysgol Talsarnau. Bu Cyngor Gwynedd a Network Rail yn cydweithio i adeiladu pont newydd dros yr Afon Dwyrdd ger Penrhyndeudraeth. Mae'r bont yn un fodern, ddiogel a chynaliadwy sy'n cynnwys rheilffordd, ffordd ddwy lôn i gerbydau a llwybr troed a beiciau. Er bod y cyfnod adeiladu wedi bod yn heriol iawn i drigolion a busnesau'r ardal, bydd y strwythur newydd yn creu gwell mynediad i fusnesau, gweithwyr ac ymwelwyr ar hyd arfordir y Cambrian. Cafodd y prosiect cyffrous gwerth £21 miliwn ei ariannu'n rhannol gan Gronfa Datblygu Ranbarthol Ewrop, a weinyddir gan Lywodraeth Cymru, yn ogystal â TraCC, Network Rail a Chyngor Gwynedd.

Yn y rhifyn hwn ceir gwybodaeth am nifer o brosiectau sydd ar waith i wella'r hinsawdd economaidd ym Meirionnydd –

Dyfodol disglair i gwmni bwyd, Blaenau Trydanol, Llanbedr yn Hedfan, Entrepreneuriaid yn Arwain y Ffordd

Gobeithio y byddwch yn mwynhau darllen am y gwaith gwerthfawr a'r datblygiadau cyffrous sydd ar droed ym Meirionnydd.

Dechreuad da ar gyfer byrbrydau iachus

Mae cwmni bwyd wedi creu swyddi y mae mawr angen amdanynt ym Meirionnydd trwy sefydlu ffatri newydd sy'n gwneud cynhyrchion bwyd arbenigol a byrbrydau iachus.

Diolch yn rhannol i gefnogaeth gan y Gronfa Benthyciadau Lleol, bydd Brighter Foods yn defnyddio ei ganolfan newydd yn Nhywyn i weithio gyda chwmnïau eraill ledled Ewrop.

Mae'r cwmni, sy'n cyflogi dros 100 o bobl erbyn hyn, yn gobeithio manteisio ar y cynnydd yn y galw am gynhyrchion heb glwten, â llai o siwgr, braster isel, rheoli diet a maeth chwaraeon.

Dywedodd y Prif Weithredwr, Robin Williams, "Mae cwsmeriaid a defnyddwyr yn dangos diddordeb mawr a, thrwy ein tîm profiadol a thra medrus a'n canolfan weithgynhyrchu yn Nhywyn, rydym mewn sefyllfa berffaith i fanteisio ar y galw a datblygu busnes a brand gwirioneddol lwyddiannus.

"Mae pawb yn Brighter Foods yn credu mai nawr yw'r amser i ymuno â'r farchnad ar gyfer bwyd arbenigol a byrbrydau iachus. Rydym wrthi'n recriwtio ar hyn o bryd ac yn bwriadu ehangu ymhellach yn 2015, yn naturiol a thrwy gaffael.

"Bydd yn wych dod â swyddi y mae mawr angen amdanynt i ardal Tywyn. Rydym yn ddiolchgar i Lywodraeth Cymru sydd wedi cefnogi ein cynlluniau trwy Gyllid Busnes, a Chronfa Benthyciadau Lleol Cyngor Gwynedd."

www.brighterfoods.co.uk

"Rydym wrthi'n recriwtio ar hyn o bryd ac yn bwriadu ehangu ymhellach yn 2015."

Cynllun beiciau gwefreiddiol

Mae beiciau trydan yn gyffredin mewn dinasoedd o Ferlin i Beijing, ac erbyn hyn mae Blaenau Ffestiniog wedi ymuno â'r duedd fyd-eang, diolch i gynllun newydd ar gyfer llogi beiciau trydan.

Cynhelir y cynllun gan y fenter gymdeithasol Antur Stiniog gyda chymorth rhaglen Cynnyrch Lleol Llwyddo yng Ngwynedd, a defnyddir y beiciau 250w i hyrwyddo gweithgareddau awyr agored ym Meirionnydd ac annog pobl i ddefnyddio beiciau i deithio o amgylch yr ardal.

"Tref wledig iawn yw Blaenau wedi'i hamgylchynu gan fynyddoedd a phrin yw'r drafndiaeth gyhoeddus," meddai Helen McAteer o Antur Stiniog.

"Mae teithio o gwmpas yn anodd, felly mae'r prosiect hwn yn cynnig cyfle gwych i bobl leol ac ymwelwyr wneud hynny'n fwy hwylus.

"Mae sawl busnes ar gyrion y dref ac mae'r beiciau trydan yn ei gwneud hi'n haws i bobl eu cyrraedd a, gobethio, rhoi hwb economaidd iddynt. Bydd hefyd yn gwella profiad ymwelwyr ac yn cynyddu'r tebygolrwydd o ailymweliad."

Mae'r beiciau ar gael i'w llogi o Y Siop, sef canolfan newydd Antur Stiniog yng nghanol Blaenau Ffestiniog. Menter gymdeithasol yw Y Siop sy'n cynnwys canolfan wybodaeth ac allfa fanwerthu sy'n gwerthu dillad awyr agored, offer dringo, offer beiciau, llogi beiciau ac amrywiaeth o becynnau gweithgareddau awyr agored i weddu i bobl leol a thwristiaid.

"Rydym wedi denu dros 15,000 o ymwelwyr ers i ni agor ein llwybrau disgynnol yn 2012, a'r nod yw cynyddu hyn o flwyddyn i flwyddyn trwy ddatblygu cynlluniau fel y cynllun llogi beiciau trydan," ychwanegodd Helen.

www.anturstiniog.com


Y pŵer i lwyddo

Mae colli'ch swydd yn anodd bob amser, ac mae meddwl am orfod ailhyfforddi i ddechrau gyrfa newydd yn gallu codi arswyd.

Fodd bynnag, mae rhai gweithwyr o Feirionnydd a fydd yn colli eu swyddi yn sgil datgomisiynu gorsaf pŵer niwclear Trawsfynydd yn ffynnu wedi iddynt droi eu llaw at sgiliau mwy traddodiadol, diolch i raglen Llunio'r Dyfodol.

Un ohonynt yw Harry Guttridge o safle Trawsfynydd. Cynghorydd ymgynghorol diogelu rhag ymbelydredd ydyw ar hyn o bryd, ond manteisiodd ar y prosiect trwy ennill cymwysterau a phrofiad mewn cneifio, gosod gwrychoedd, torri coed a gwaith llif gadwyn. Mae wedi dechrau ei fusnes ei hun ers hynny – Tegid Ltd – gan rannu ei amser rhwng gwneud gwneud crefftiau gwledig tymhorol a phrosiectau niwclear seiliedig ar ddesg.

Dyweddodd Harry: "Roeddwn yn hoff iawn o natur gorfforol y gwaith a chanfûm ei fod yn rhoi cyfle i mi weld pob math o fannau diarffordd hardd. Rydw i wedi cyfarfod rhai cymeriadau diddorol ar hyd y ffordd hefyd! Mae'r cneifio'n cael ei wneud yn ystod misoedd yr haf, a'r unig bryd y gellir gosod gwrychoedd yw yn ystod y gaeaf pan fydd yr adar wedi gorffen nythu. Mae hyn yn golygu fy mod yn gallu gwneud gwaith yn yr awyr agored ar hyd y flwyddyn bron.



Mae Harry Guttridge wedi sefydlu ei fusnes ei hun – Tegid Ltd.

"Mae safleoedd niwclear yn tueddu i fod mewn ardaloedd anghysbell fel Eryri, felly rwy'n disgwyl cael y cyfle i ddefnyddio'r crefftiau gwledig hyn ble bynnag yr af trwy fy ngwaith ymgynghori niwclear. Ar hyn o bryd, prin mwy na hobi ydyw wrth i mi ennill profiad a datblygu cysylltiadau, ond, ymhen amser, rwy'n gobeithio ehangu'r ochr honno o'r busnes."

Mae Llunio'r Dyfodol wedi helpu mwy na 1,000 o weithwyr yr orsaf niwclear i ddatblygu eu sgiliau a'u paratoi ar gyfer y dyfodol. Cefnogwyd y prosiect tair blynedd gan £2.3 miliwn gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, £1.2 filiwn gan yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear, cyllid gan Gronfa Adfywio Môn a Menai trwy Lywodraeth Cymru a chyllid ychwanegol gan Gynghorau Sir Ynys Môn a Gwynedd.

A fydddech chi'n achub ar y cyfle?

Mae Elis Garmon Jones o Lanuwchllyn yn gwerthfawrogi harddwch pren.

Cafodd y bachgen mentrus hwn o Feirionnydd, sy'n dal i fod yn ei arddegau, ei ysbrydoli i ddechrau ei fusnes ei hun – Buarthau'r Barcud – yn dilyn ei lwyddiant mewn cystadleuaeth gwaith coed mewn sioe leol bedair blynedd yn ôl.

Mae hefyd yn un o 853 o unigolion hyd yma sydd wedi cael bwrsariaeth gwerth £1,000 ar ôl gweithio gyda Swyddog Datblygu Llwyddo'n Lleol i gwblhau cynllun busnes.

O ystyried ei gefndir ffermio, efallai nad yw'n syndod bod Elis wedi bod yn creu buarthau a siediau bach fel teganau ar gyfer ei frawd iau. Gan ddefnyddio darnau sgrap o bren o felin leol, mae Elis wedi bod yn hogi ei sgiliau ar lefel hobi, ac erbyn hyn mae'n barod i ddechrau busnes. Gyda'r fwrsariaeth, mae Elis bellach yn gallu prynu offer o ansawdd da, ennill sgiliau a chynyddu ei hyder i fynd â'i syniadau busnes i'r lefel nesaf.

Mae Elis eisoes yn meddwl am ei ddyfodol a hoffai fod yn saer pren ryw ddydd. Mae'r fwrsariaeth Llwyddo'n Lleol wedi rhoi'r hwb sydd ei angen arno i droi ei hobi'n fusnes.



Yr entrepreneur ifanc, Elis Garmon Jones

Mae Elis yn entrepreneur prysur iawn gan y bydd yn rheoli ei fusnes ei hun ar yr un pryd â gweithio ar fferm ei deulu.

Llanbedr ar i fyny

Mae nifer o gerrig milltir arwyddocaol wedi'u cyrraedd o ran adfywio Maes Awyr Llanbedr yn ystod y deuddeg mis diwethaf, gan ddarparu sylfaen gadarn ar gyfer datblygiad cynaliadwy'r safle yn y tymor hir.

Mae buddsoddiad o fwy nag £1.5 miliwn gan Ystadau Maes Awyr Llanbedr (LAE), QinetiQ a Llywodraeth Cymru yn cyflawni canlyniadau amlwg ac yn gosod y sylfeini i ddenu mwy o fuddsoddiad a swyddi.

Lansiwyd Maes Awyr Llanbedr yn swyddogol ym mis Hydref 2014 gan y perchenogion, sef LAE, mewn partneriaeth â QinetiQ, ac mae bellach ar agor ar gyfer busnes yn rhan o Ardal Fenter Eryri. Bydd datblygu ac integreiddio prosesau a gweithdrefnau ar gyfer rheoli gofod awyr a gwasanaethau maes awyr yn llwyddiannus yn arwain at ailgychwyn teithiau hedfan prawf systemau cerbydau awyr a reolir o bell (RPAS).

Y nod tymor hir yw ailsefydlu Maes Awyr Llanbedr yn ganolfan ragoriaeth ar gyfer profi a datblygu

systemau a reolir o bell ac ymestyn y gallu ar gyfer y sector hwn yng Nghymru, gan ategu seilwaith presennol fel Canolfan UAV Gorllewin Cymru yn Aberporth.

Mae gan y maes awyr gysylltiad hir a sefydledig â systemau cerbydau awyr a reolir o bell sy'n dyddio'n ôl i'r 1940au. O'r 1960au ymlaen, y maes awyr oedd y brif ganolfan weithredu ar gyfer system Jindivik a ddefnyddiwyd i dynnu targedau o fewn y 7,500 cilomedr sgwâr o ofod awyr gwahanedig dros Fae Ceredigion.

Hyd yma, mae'r tŵr rheoli traffig awyr a'r Sied RPAS benodol newydd (hen orsaf dân) wedi cael eu hadnewyddu'n llwyr. Mae cyfleusterau ail-lenwi a diogelwch rhag tân ar gael ar y safle, mae band eang cyflym iawn yn cael ei osod a bydd mesurau diogelwch newydd yn cychwyn yn fuan. Fly Llanbedr ac Airborne Solutions yw'r cwmnïau diweddaraf i fuddsoddi ym Maes Awyr Llanbedr, gan ddod â chyfanswm nifer y busnesau ar y safle i 12, sy'n cyflogi oddeutu 40/50 o bobl.

Pobl ifanc Meirionnydd yn anelu'n uchel

Bu mwy na 30 o ddisgyblion o Ysgol y Moelwyn, Blaenau Ffestiniog ac Ysgol Ardudwy, Harlech yn bresennol mewn digwyddiad ymgysylltu ag ieuenctid yng Nghanolfan Hedfan Llanbedr i hyrwyddo'r cyfleoedd gyrfaol a allai fod ar gael iddynt ym maes awyrennau a roboteg.

Roedd y digwyddiad, a drefnwyd trwy'r prosiect Llwyddo'n Lleol gwerth £3.4 miliwn a gefnogir gan yr Undeb Ewropeaidd ac Ardal Fenter Eryri, yn gyfle i dynnu sylw at bwysigrwydd Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg (pynciau STEM) a'r llwybr gyrfaol y gallant ei gynnig i ddisgyblion Gwynedd.

Yn ystod y dydd, rhoddwyd y cyfle i'r disgyblion ymweld â Chanolfan Hedfan ac Ardal Fenter Llanbedr, a chyfarfod â chyflogwyr lleol yn y sector.

Yn rhan o'r digwyddiad, clywodd y disgyblion gan Mark Norris, Pennaeth Awyrofod ac Amddiffyn Llywodraeth Cymru, yn ogystal â chael Sesiwn Dangos a Dweud gan Jeremy Howitt o QinetiQ a esboniodd nodweddion unigryw'r safle, ac amlinellu cyfleoedd posibl ar gyfer datblygiad.



Cyfle i ddisgyblion a fu'n bresennol yn y diwrnod ymgysylltu ag ieuenctid archwilio awyren yn agos

Cafodd y disgyblion lleol gyfle i gyfarfod â gweithwyr proffesiynol a gofyn iddynt am eu profiadau yn y sector hefyd.

Roedd nifer o weithfannau'n cynnwys y cwmni hedfan o Lanbedr, sef Fly Llanbedr; trafodaeth ar gyfleoedd gyrfaol ym maes hedfan gan berchenogion y safle, sef Ystadau Maes Awyr Llanbedr; Emma Hodgetts o QinetiQ a drafododd llwybrau at beirianeg; Kevin Titley, Llysgennad STEM o Magnox; Andrew Taylor, Llysgennad STEM o Wylfa a Jessica Jones, Peiriannydd Benywaidd y Flwyddyn 2012.

Diweddgo'r diwrnod oedd cyflwyniad a chwis gan Sue Wolfe o Callen Lenz / ARPAS-UK.

Canolfan gymunedol yn rhoi hwb i'r Bala

Mae menter a arweinir gan y gymuned i ddenu gwasanaethau cyhoeddus a busnesau yn ôl i'r Bala wedi agor canolfan gymunedol newydd ar gyfer pobl leol.

Gyda chymorth gan raglen Cymunedau Cynaliadwy, mae Cwmni Pum Plwy Penllyn wedi ailddatblygu Canolfan Henblas ar Stryd Fawr y Bala yn ganolfan ar gyfer busnes a gwasanaethau cymunedol lleol, gan greu lle swyddfa, cyfleusterau cynadledda a lle cyfarfod.

Dywedodd Huw Antur, ysgrifennydd y cwmni, "Ein gweledigaeth yw y bydd Canolfan Henblas yn adnodd gwerthfawr i'r gymuned gyfan – tref y Bala a'r ardaloedd amgylchynol.

"Un o'r prif fwradau oedd dod â gwasanaethau i'r ardal ac yn agosach i'r bobl – gwasanaethau y mae'n rhaid i bobl deithio i ddod o hyd iddynt ar hyn o bryd.

"Nod arall yw darparu lle swyddfa i fusnesau a lleoliad ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau bach."

Mae'r cwmni'n gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau fel y rhai hynny ym maes gwasanaethau iechyd a lles, ac mae mwy na 15 o sefydliadau wedi dangos diddordeb mewn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn y ganolfan ar sail achlysurol.



Canolfan Henblas ar Stryd Fawr y Bala

Cwmni Pum Plwy Penllyn sydd y tu ôl i'r prosiect, sef cwmni cyfyngedig nid er elw a sefydlwyd i hybu twf cymdeithasol ac economaidd yn ardal Penllyn. Mae eisoes yn gyfrifol am amwynderau amrywiol yn yr ardal gan gynnwys meysydd parcio a thai bach.

www.canolfanhenblas.com

I gael rhagor o wybodaeth:
adfywio@gwynedd.gov.uk | 01286 679774

Y RHAI A GYFRANNODD AT Y CYLCHLYTHYR

